

## Eglwys “drive through”

Wrth deithio ar hyd a lled Cymru gyda'm gwaith, un o'r pethau oedd yn achos cwmp imi yn fynych oedd y bwyta'i yna sydd yma ac acw, lle y medwrch gael paned o goffi, neu hyd yn oed bryd o fwyd heb ichwi orfod mynd allan o'r car. Mae rhai o'r rhain wedi dechrau ail-agor, ac os bydd un yn ail-agor yng Nghaerfyrddin neu ar yr M4, rwy'n amau os medrwn hawlio fod y siwrne yno yn un angenrheidiol o dan y cyfyngiadau!

### Cwestiynau heriol

Ddoe diwethaf daeth y newyddion fod Llywodraeth Gogledd Iwerddon yn caniatáu, o heddiw ymlaen, i eglwysi gynnig eglwys “drive through”. i wneud yn siŵr nad oeddwn wedi cam glywed, dyma hwyllo at frwd trydar Llywydd Eglwys Bresbyteraidd Iwerddon, ac ar fy ngwir, mae'r Parch Dr William Henry wedi anfon llythyr i Arlene Foster yn croesawu'r camau hyn ymhlith rhai eraill. Mae'n debyg y bydd yna ddoethuriaeth yn cael ei gynllunio yn rhywle ar addoli mewn pandemig, a bydd yn ddi-ddorol gweld y rhesymeg ddiwinyddol sydd tu ôl i sawl arbrawf newydd yn y cyfnod yma. Gan nad wyf â gofal eglwys ar y funud, mae'n dda gennyf nad oes angen i mi wynebu cwestiynau megis oedfa gymun dros y we, neu oedfa fedydd drwy ffenestr y car. Yn y cyfnod yn Nyffryn Aman a Dyffryn Clwyd roedd y cwestiynau diwinyddol oedd yn wynebu'r arweinydd yn fwy i wneud gyda symud y piano ddwy fodfedd i'r dde!

Mae'r cyfnod hwn yn gyfnod lle mae'n heglwysy'n cael ein gorfodi gan yr amgylchiadau i weithio allan beth sy'n ymarferol bosibl ar hyn o bryd. I geisio dirnad sut orau i ofalu am bobl yn ysbrydol? A sut mae diogelu hanfod beth yw bod yn eglwys? Mae ein Cyffes Ffydd yn cyfeirio at ein dyletswydd i “ymuno a chymdeithasu â'n gilydd yn addoliad cyhoeddus Duw”, ac yn “Sail a Dibenion...” y cynulliadau cynharaf, nodwyd mai rai o ddibenion dod ynghyd oedd i “oleuo ein gilydd yng ngair Duw, er mwyn cadarnhau y naill a'r llall yn y sancteiddiolaf fydd; er mwyn cynghori ein gilydd...”. Yr ydym yn bobl felly sydd â diddordeb rhagweithiol mewn unrhyw drafodaeth fydd yn sicrhau, o fewn cyfyngiadau priodol, fod pobl yr Arglwydd yn cael cydgyntnull, yn cael addoli, ac yn cael profi'r addewid yna o adnabod Iesu yng nghanol y ddau neu dri. Nid cyfyngu ar allu Iesu, drwy ei Ysbryd Glân i fod yn bresennol wrth inni



Parch Meirion Morris

addoli fel cynulleidfa ar wasgar yn ein cartrefi yw hyn, a'n dyhead am gael bod gyda'r teulu eto, yn addoli, yn cysgodi, yn tyfu gyda'n gilydd.

### Ein hymateb i'r her

Fe ddylech bellach fod wedi derbyn copi o'r holiadur anfonwyd allan at yr eglwysi. Ein bwriad yw clywed eich lleisiau, clywed eich profiadau a chlywed eich dyheadau. Mae pethau wedi newid, ac mi fydd pethau yn newid, ac mae'r gofod yma yn rhoi cyfle inni weld sut yr ydym am ymateb i hynny. Er nad ydym yn meddwl y bydd yr holiadur yn rhoi'r gair olaf inni ar hyn, mi fydd yn arwydd o sut y mae Duw wedi ein harwain i feddwl, i weddio ac i freuddwydio. Er ein bod wedi ei anfon i ysgrifenyddion yr eglwysi, mae croeso i unrhyw un sy'n aelod i

lenwi un, a medwrch ei lawrlwytho o'n gwefan. Os ydych am gopi papur, beth am ofyn i ysgrifenydd eich eglwys. Cofiwch ei anfon yn ôl erbyn diwedd y mis, er mwyn inni fedru clywed eich llais a derbyn eich cyfraniad, a rhoi arweiniad clir i'r rhai sy'n ein cynrychioli mewn trafodaethau cenedlaethol gyda'r llywodraethau gwahanol. Mi fydd hefyd yn gymorth inni fel

Enwad wrth geisio dirnad sut orau i ymateb i'ch sefyllfa gyfredol, ond hefyd er mwyn cyhoeddi'r hyn yr ydych yn ei wneud fel pobl, yn eich cymuned yn ystod y cyfnod hwn. Drwy'r cwbl, yr ydym am fod yn dystiolaeth i Iesu, ac am weld ein pobl yn halen a goleuni, yn ddinas ar fryn drwy'r cyfnod hwn, ac i mewn i'r cyfnod nesaf.

Er ein bod dros y blynyddoedd wedi

gweld lleihad yn y nifer o eglwysi sydd gennym, nid ydym, fel yr honnodd un cyfrannwr yr wythnos ddiwethaf yn y Church Times, wedi diflannu o'r tir. (<https://www.churchtimes.co.uk/articles/2020/15-may/features/features/church-in-wales-still-bleeding-after-all-this-time>) Mae gennym bobl yn y rhan fwyaf o bentrefi a threfi Cymru a thu hwnt. Diolch am y presenoldeb hwn, a gweddiwn y bydd yr Arglwydd nid yn unig yn diogelu ein presenoldeb drwy'r tymor yma, ond hefyd yn ei ddefnyddio. Nid bodoli ond bod yw'r alwad arnom ni, ac wrth inni fod yng nghanol ein pobl, gweddiwn y bydd Duw yn ein defnyddio, ac yn agor y fordd yn fuan inni fod “gyda'n gilydd”.

Parch Meirion Morris  
Ysgrifennydd Cyffredinol

# Iesu yn Athro

Yr ydym wedi sylwi ar ddatganiad Iesu fod Duw wedi rhoi awdurdod llawn iddo, a thrwy hynny roddi awdurdod dros bob un o'i ddisgyblion. Mae'r Cristion felly yn gorffod cydnabod Iesu fel Arglwydd ar bob agwedd o'i fywyd. Mae Iesu hefyd yn disgwyl ufudd-dod i'w orchymnion.

Beth felly mae'n ei ddisgwyl gan bob un o'i ddilynwyr?

Bron ganrif yn ôl cyfansoddwyd emyn gan Nantlais ar ddiwedd myfyrdod ar rai o ddamhegion Iesu. Mae'r emyn yn ddisgrifiad hyfryd o'r gwirionedd fod Iesu'n athro gwerth gwrandod arno, ac ufuddhau iddo. Mae'r pennill gyntaf yn ddisgrifiad o'r athro, yr ail bennill yn ddyhead am allu ymateb iddo a'r trydydd pennill yn weddi am nerth i ddyfalbarhau. Dyma'r emyn.

*Wele'r Athro mawr yn dysgu dyfnion  
bethau Duw;  
Dwyfol gariad yn llefaru- f'enaid clyw!*

*Arglwydd, boed i'th eiriau groeso yn fy  
nghalon i;  
Crea hiraeth mwy am wrando arnat ti.*

*Dyro inni ras i orffwys ar dy nerth a'th  
ddawn;  
Tyfu'n dawel yn dy Eglwys, ffrwytho'n  
llawn.*

Mae'n emyn digon syml ond yn cyfleu gwirioneddau arbennig, inni fyfyrion arnynt.

Pan ofynwyd i Iesu beth oedd y gorchymyn mwyaf ei ateb oedd;

*"Câr yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon  
ac â'th holl enaid ac â'th holl feddwl."*

*Dyma'r gorchymyn mwyaf a'r cyntaf. Ac y  
mae'r ail yn debyg iddo; 'Câr dy gymydog  
fel ti dy hun.' Ar y ddau orchymyn hyn y  
mae'r holl Gyfraith a'r proffwydi yn  
dibynnu."*

Mae llawer ohonom yn siŵr o fod yn cofio'r arferiad o gydadrodd y Deg Gorchymyn neu'r Gwynfydau ar ddiwedd yr Ysgol Sul. Mae'n siŵr mai ymdrech oedd hynny i'n hatgoffa o'r gorchymnion oedd yn cael eu cyfri'n bwysig.



Wrth ddsygu'r Deg Gorchymyn ar ein cof 'roeddem yn cael ein hatgoffa o'r ddau orchymyn mwyaf pwysig posibl. Wrth ddsygu'r Gwynfydau 'roeddem yn cael ein hatgoffa o sut fath o gymeriad ddylai fod gan ddilynwyr Crist. Mae colli golwg ar y gwirioneddau hyn yn golled ysbrydol enbyd.

Mae'n amlwg bod Iesu wedi treulio rhan helaeth o'i amser yn egluro i'w ddilynwyr beth oedd ef yn ei ddisgwyl ganddynt. Wrth ddarllen a myfyrion ar Mathew 5-7, sef y geiriau a elwir yn Bregeth ar y Mynydd, 'rydym yn cael darlun clir o'r hyn a

ddisgwylir gennym. Wrth ddarllen y damhegion cawn ddarlun clir ynglŷn â'r deyrnas mae Iesu wedi dod i'w sefydlu.

I ddod yn ôl at bwyslais Iesu ar garu Duw â'n holl galon, ac â'n holl enaid ac â'n holl feddwl mae'n debyg mai'r hyn sydd dan sylw yw ein hosgo meddwl. Tybed nad yw disgrifiad o briodas yn addas i geisio darlunio'r gwirionedd hwn. Mewn gwasanaeth priodas mae'r ddau yn addo bod yn ffyddlon i'r naill a'r llall.

Geiriau gwerth sylwi arnynt yw'r rhai mae Luc wedi'i cronico fel rhai o eiriau olaf Iesu;

*"Dyma ystyr fy ngeiriau a leferais wrthych  
pan oeddwn eto gyda chwi; ... Fel hyn y  
mae'n ysgrifenedig; fod y Meseia i  
ddioddef, ac i atgyfodi oddi wrth y meirw ar  
y trydydd dydd, a bod edifeirwch, yn  
foddion maddeuant pechodau, i'w  
gyhoeddi yn ei enw ef i'r holl genhedloedd,  
gan ddechrau yn Jerwsalem."*

Mae hanes y Gweddnewidiad, sy'n cael ei gronico gan Mathew, Marc a Luc, yn cynnwys y geiriau hyn; "Hwn yw fy Mab, yr Anwylyd, gwrandewch arno."

Os yw Duw wedi rhoi awdurdod llawn i'r Iesu, ac os yw'n wir fod gan Iesu arglwyddiaeth ar bob un o'i ddilynwyr, onid yw'n ofynnol ein bod yn treulio amser yn ceisio deall beth sydd ganddo ei angen gennym.

Colled ysbrydol enbyd yw bod cymaint ohonom wedi peidio'r arferiad o gyfarfod i weddio ac i ddarllen y Beibl gyda'n gilydd yn rheolaidd. Byddai'n dda clywed am enghreifftiau lle mae hynny'n digwydd heddiw.

**Tom Williams, Dinbych.**

## Addasu i addoli yn sgil y Coronafirws

Er bod drysau ein capel wedi bod ar gau ers canol Mawrth, mae'r Garn yn un o'r eglwysy ledled Cymru sydd wedi bod yn arbrofi gyda gwahanol fathau o dechnoleg i geisio cadw'u haelodau mewn cyswllt. Yn ogystal â pharhau â'i waith bugeiliol – ar y ffôn, wrth gwrs – mae ein Gweinidog, Parch Ddr. Watcyn James, wedi bod yn paratoi myfyrdod a defosiwn ar ein cyfer bob wythnos.

Rydyn ni'n defnyddio sawl ffordd wahanol o rannu'r rhain ymysg yr aelodau a chyfeillion, a bellach maent ar gael ar ffurf fideo ar dudalen Facebook Capel y Garn ac ar ein sianel YouTube newydd. Mae fersiwn sain yn cael ei uwchlwytho i Soundcloud, a chopi testun ar ein gwefan: [www.capelygarn.org](http://www.capelygarn.org). Rydym ni hefyd yn defnyddio Twitter (@capelygarn) a negeseuon e-bost i dynnu sylw at y deunyddiau hyn. Felly, mae cyfle i bawb sy'n dymuno gwneud hynny i wyllo, gwrandod neu ddarllen y myfyrdodau.

Mae'r ymateb wedi bod yn galonogol iawn, ac rydym ni wedi derbyn negeseuon o bell ac agos gan bobl sy'n gwerthfawrogi'r ddarpariaeth. Mae rhai'n hoffi gwrandod ar y myfyrdod ychydig cyn noswyllo, eraill wrth wneud gorchwylion o ddydd i ddydd, ac

eraill yn cynnal "gwasanaeth" ar yr aelwyd – y fantais o'i recordio ydi y gall pobl droi at y myfyrdod pan fydd hi'n gyfleus iddyn nhw.

Mae wedi bod yn gyfnod o arbrofi a dysgu am dechnoleg newydd o fewn cyfnod byr iawn – a tydi pethau ddim wastad wedi rhedeg yn esmwyth: y sain yn herciog ambell waith, a'r gwefusau ddim fel petaen nhw'n cydsymud â'r llun dro arall, ac fe ddiplannodd ambell fideo oedd wedi cael ei ffilio'n ofalus i dwll du yn rhywle, a chyrraedd ebarogfiant, mae'n debyg!

Ond roedden ni'n dal i gollir cyswllt personol a'r cymdeithasu dros banded ar ddiwedd yr oedfa ac mewn astudiaeth Feiblaidd. Felly, penderfynwyd mentro i fyd y Zoomio. Yn betrus iawn ar y dechrau, arbrofwyd â sgwrs dros banded "rithiol" ar fore Mercher, gyda myfyrdod byr i gloi – ac ar ôl goresgyn ambell broblem fach, fe gafwyd hwyl arni.

Y cam nesaf oedd cynnal gwasanaeth drwy Zoom, a chan ei bod yn Wythnos Cymorth Cristnogol, fe drefnwyd i ddilyn trefn y gwasanaeth oedd wedi'i baratoi ar gyfer eleni, gyda nifer o gyfranwyr o eglwysy'r ofalaeth yn darllen ac yn

gweddio, dan arweiniad ein Gweinidog. Roedd hwn yn brofiad arbennig o fendithiol i mi ac fe grëwyd rhyw naws addolgar didwyll iawn yn ystod y gwasanaeth.

Fel y dywedodd ein Gweinidog: "Gan na wyddom am ba hyd y pery'r ynysu na bygythiad COVID-19, nid yw'n bosibl i ni ddarogan beth fydd effeithiau hir dymor yr ynysu. Ond mae hefyd yn amlwg hyd yn oed yn awr mai tirlun gwahanol iawn fydd yn ein hwynebu os pery'r dieithrio am dymor maith."

Yn y cyfamser, ein bwriad yw parhau i adeiladu ar sail ein profiadau ac arbrofi i weld beth fydd yn gweithio orau i ni fel eglwysy'r ofalaeth, gan ehangu i gynnal ysgol Sul ar Zoom, gobeithio. Mae croeso i unrhyw un ymuno â ni, wrth gwrs, drwy hoffi ein tudalen Facebook, ein dilyn ar Twitter neu wyllo ein sianel YouTube. Does dim ffiniau – daearyddol nac enwadol – i'r We, ac felly, er bod drysau ein hadeiladau ar gau, mae drysau eraill ar agor led y pen i'ch croesawu.

Anfonwch air at ein Gweinidog: [watcyn.james@ebcpw.cymru](mailto:watcyn.james@ebcpw.cymru) neu at [ymholiadau@capelygarn.org](mailto:yhmholiadau@capelygarn.org).

**Marian Beech Hughes**

## AR DAITH DRWY'R HEN DESTAMENT

Canllaw ar gyfer astudiaeth a thrafodaeth mewn grŵp bychan, gan gynnwys gwrs oedolion yr ysgol Sul neu fel deunydd myfyrdod personol (Seilledig ar y gyfrol *Geiriau Ffydd 3* gan y Parch. John Treharne, sef gwrslyfr ysgol Sul yr oedolion am 2019/20)

Paratowyd gan y Parch. Hywel Rh. Edwards

### Gwers 36 – Sul y Pentecost, 31 Mai

JOEL

Ysbryd byw y deffroadau,  
disgyn yn dy nerth i lawr.  
(*Caneuon Ffydd*, 584)

'Ar ôl hyn tywalltaf fy ysbryd ar bawb;  
bydd eich meibion a'ch merched yn  
proffwydo,  
bydd eich hynafgwyr yn gweld breudd-  
wydion,  
a'ch gwŷr ifainc yn cael gweledig-  
aethau.' (Joel 2:28)

*Darllen:* Joel 2:12–32; Actau 2

*Gweddi:*

Ti achubaist y rhai gwaethaf,  
annheilyngaf a fu'n bod;  
achub eto, achub yma,  
achub finnu er dy glod.  
Ti gei'r mawl pan danio'r ddaear  
a phan syrthio sêr y nen:  
ti gei'r enw yn dragwyddol,  
ti gei'r goron ar dy ben. Amen  
(*Caneuon Ffydd*, 583)

Ydych chi wedi bod yn sylwi mwy ar  
fachlud yr haul dros y cyfnod caeth yma,  
neu tybed eich bod wedi codi i fwynhau'r  
wawr? Mae rhywbeth am weld y goleuni  
coch yn ymledu yn cynhesu'r enaid.  
Byddwn hefyd yn gweld argoelion o'r

tywydd sydd ar ddyfod yn yr arwyddion  
hyn. Arwyddion ychydig mwy difrifol  
oedd gan Joel mewn golwg:

"Rhof argoelion yn y nefoedd ac ar y  
ddaeear,  
gwae a thân a cholofnau mwg.  
Troir yr haul yn dywyllwch  
a'r lleuad yn waed  
cyn i ddydd mawr ac ofnadwy yr  
ARGLWYDD ddod."  
(Joel 2:30–31)

Gwelodd Joel argoelion natur, megis  
haid o locustiaid, yn arwyddion o'r farn a  
fyddai'n ymweld â'r Israeliaid ymhen  
amser, yn 'nydd mawr ac ofnadwy yr  
ARGLWYDD'.

Ond er bod pwyslais ar farn, mae'r  
broffwydoliaeth yn llawn argoelion am  
ras a maddeuant. Mae pobl Dduw i  
ymateb i'r pla drwy alw cymanfa ac  
edifarhau, gweler 1:13–15; 2:1, 12–17:

"Yn awr," medd yr ARGLWYDD,  
"dychwelwch ataf â'ch holl galon,  
ag ympryd, wylofain a galar.  
Rhwygwch eich calon, nid eich dillad,  
a dychwelwch at yr ARGLWYDD eich  
Duw."

Sylwch ar y patrwm: mae Duw yn galw  
ar ei bobl i ymateb i'w air, ac mae'n  
defnyddio cyfyngder i'w dwyn i  
synnwy; yna, mae'r bobl i alw ar yr  
Arglwydd am drugaredd ac mae ef yn eu  
bendithio. Daw'r addewid o adferiad i'r

bobl, a bendith gyfamodol ydyw:  
"Cewch wybod fy mod i yng nghanol  
Israel, ac mai myfi, yr ARGLWYDD, yw  
eich Duw, ac nid neb arall." (2:27)

A'r arwydd rhyfeddol o gyflawni'r  
cyfamod hwn yw tywalltiad o'r Ysbryd  
ar bob cnawd. Dyma oedd ym meddwl  
Pedr wrth iddo gyhoeddi efengyl o  
edifeirwch a chadwedigaeth yn enw Iesu  
ar ddydd y Pentecost. Nid wedi meddwi  
yr oeddynt, na: "Eithr dyma'r hyn a  
ddywedwyd drwy'r proffwyd Joel: 'A  
hyn a fydd yn y dyddiau olaf, medd  
Duw: tywalltaf o'm Hysbryd ar bawb.'"

Nid pla o locustiaid oedd yn  
rhagargoeli barn Duw y tro hyn, ond yn  
hytrach croeshoelio Iesu, Meseia Duw,  
ac iddo godi'r trydydd dydd. Cyhoeddi y  
mae Pedr wrth y dorf ar ddydd y  
Pentecost, fod tywalltiad yr Ysbryd yn  
brawf o'r Efengyl, ac os ydynt yn  
edifarhau, mae'r addewid iddynt hwy 'ac  
i bawb sydd ymhell, pob un y *bydd yr  
Arglwydd ein Duw ni yn ei alw ato*'  
(Actau 2:39). Yr un yw'r patrwm ag sydd  
yn Joel: Duw yn galw, ei bobl yn  
edifarhau gan alw mewn ffydd arno, a  
'phob un sy'n galw ar enw'r Arglwydd,  
cadwedig fyddo'. (Joel 2:32; BWM)  
Dyma gylch gras a ffydd.

*Trafod ac ymateb:*

1. Sut ydych yn ymateb i'r pla rydym yn  
ei ganol? Ym mhroffwydoliaeth Joel,  
yr ymateb priodol i bla yw galw  
cymanfa i edifarhau a galw ar enw'r  
Arglwydd. Allwn ni ddim ymgynnull  
fel cymanfa o'i bobl, ond fe allwn  
ddychwelyd ato mewn edifeirwch gan  
eiriol am fendith.
2. Ar ddydd y Pentecost, beth am  
dreulio amser yn myfyrio ar gyfoeth  
ein hemynau sy'n dyheu am  
dywalltiad o'r Ysbryd, e.e. *Caneuon  
Ffydd*, 567, 568, 573 – 'Ysbryd y  
gwirionedd, tyred yn dy nerthol,  
ddwyfol ddawn'.
3. Wyt ti'n sicr dy fod yn gadwedig? A  
wyt ti wedi galw mewn edifeirwch ar  
enw'r Arglwydd?

## Cyfarwyddydd newydd Housing Justice Cymru

Mewn gwasanaeth Zoom dan arweiniad  
y Gwir Barchg Rob Wickham, Esgob  
Edmonton, a'r Archesgob John Davies,  
sefydlwyd Bonnie Navarra ar Ebrill 14 i  
gymryd lle Sharon Lee (bellach yn  
Gyfarwyddydd Cymdeithas Dai  
Aelwyd) yn Gyfarwyddydd ar Housing  
Justice Cymru. Mae HJ Cymru yn rhan o  
deulu Cytûn, ac yn gweithredu fel  
asiantaeth yr eglwys ar fynd i'r afael â  
digartrefedd yng Nghymru, a hynny  
mewn ffyrdd ymarferol (yn enwedig  
trwy gynnal llochesi nos a thrwy  
ddefnyddio tir sy'n weddill gan  
yr eglwys i adeiladu cartrefi  
fforddiadwy) a thrwy ddylanwadu  
ar bolisiau llywodraethau Cymru a'r  
DU. Mae Grŵp Llywio i Gymru  
yn arolygu'r gwaith hwn ac yn  
cefnogi'r Cyfarwyddydd a'r staff



a'r gwirfoddolwyr eraill. Cynrychi-  
olir Cytûn gan y Parch. Gethin Rhys ac  
mae gan nifer o aelod eglwys  
gynrychiolaeth uniongyrchol hefyd.  
Gellir cysylltu â Bonnie trwy  
b.navarra@housingjustice.org.uk Gellir  
gweld y newyddion diweddaraf ar  
tudalen Facebook HJ Cymru.

## Cyfeiriad Golygydd Y PEDAIR TUDALEN

Huw Powell-Davies

pedair.tudalen@gmail.com

neu Llifor, 60 Ffordd Rhuthun,  
Yr Wyddgrug, CH7 1QH

Anfonwch eich erthyglau, hysbysebion  
a.y.y.b. i'r cyfeiriad uchod.

Mae'r Pedair Tudalen Gydenwadol yn  
cael eu cynnwys yn rhan o bapurau  
wythnosol tri enwad, sef *Y Goleuad*  
(Eglwys Bresbyteriaid Cymru), *Seren  
Cymru* (Undeb Bedyddwyr Cymru) a'r  
*Tyst* (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg).



**Dechrau Canu  
Dechrau Canmol  
24 Mai 2020 – Cymuned**

Yr wythnos yma byddwn yn treulio amser yng nghwmni'r rhai sydd yn dal yn brysur iawn yn eu cymuned yn ystod y cyfnod heriol yma. Cawn weld sut mae cymuned glòs Drefach yn ymdopi a hefyd gweld gwaith gwerthfawr un ofalwraig arbennig yng Nghartref Gofal Hafan y Waun, Aberystwyth.

Bydd **Oedfa Dechrau Canu** am 11:00 yb yng ngofal y Parch. Hywel Meredydd Davies, Cildwrn, Llangefni.



**Caniadaeth y Cysegr  
Sul, 24 Mai 2020  
7:30yb a 4:30yp**

Mae rhifyn y Sul hwn o raglen *Caniadaeth y Cysegr* ychydig yn wahanol i'r arfer. Dan amodau arferol byddai hon yn ddechrau wythnos Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Sir Ddinbych. Oherwydd Covid-19 nid yw honno'n cael ei chynnal, ond mae'r rhaglen hon am ddod ag ychydig o naws yr Eisteddfod i'ch cartrefi. Mae nifer fawr o gymanfaoedd ar hyd y wlad ers blynyddoedd yn gwahodd unawdwy, deuawdwy, partïon a chorau i berfformio a chyfrannu. Yn amlach na pheidio, plant a phobl ifanc yw'r rhain – a nifer ohonynt nhw'n wynebau cyson ar lwyfannau ein heisteddfodau. A rhai o'r rhain glywch chi'n canu emynau a chaneuon crefyddol yn y rhaglen hon. Steffan Rhys Hughes, gŵr ifanc o Sir Ddinbych, sy'n cyflwyno.

Mae Radio Cymru wedi newid trefn y ddarpariaeth grefyddol ar y Sul ers mis Ebrill, gyda'r arlwy yn edrych fel hyn bellach:

7:30yb Caniadaeth y Cysegr  
12:00yp Yr oedfa  
12:30yp Bwrw Golwg  
16:30yp Caniadaeth y Cysegr  
(ailddarllediad)

Os oes gennych sylwadau neu argymhellion yn sgil y newidiadau, gallwch eu hanfon at Radio Cymru oddi ar eu gwefan dan y pennawd Cysylltwch â ni, neu drwy ebostio: [radio.cymru@bbc.co.uk](mailto:radio.cymru@bbc.co.uk) neu anfon gair at: Radio Cymru, Y Ganolfan Ddarlledu, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YQ.

# 'BETH YW CRISTION?'

## Myfyrdod:

Yn aml iawn, un o'r cwestiynau cyntaf sy'n cael ei ofyn i mi wrth gwrsela a chynnig cefnogaeth drwy Cynnal, y gwasanaeth cwnsela eglwysig sy'n cael ei gynig ledled Cymru i Glerigwyr, Gweinidogion yr Efengyl a'u teuluoedd, yw hwn: ydw i'n Gristion?

Rydw i wedi pendroni llawer uwchben fy atebiad nes imi ddechrau holi'n hunan, beth yw Cristion? Neu, yn hytrach, beth a olygwn wrth Gristion?

Mae'n gwestiwn hawdd iawn ei ofyn. Ond nid yn un mor hawdd ei ateb.

Byddwn yn sôn am hwn neu hon: "Dyna Gristion o ddyn neu ddynes," meddwn. Neu am rywun arall, "Mae o'n rôl Cristion." Neu efallai fod hwn neu hon wedi marw, ac wrth dalu teyrnged dywedwn, "Roedd hwn neu hon yn Gristion, heb os nac oni bai."

Nawr, beth yn union a feddyliwn wrth ddweud bod dyn neu ddynes yn Gristion? Beth sydd raid i chi ei gael neu beth sydd raid i chi fod i haeddu cael eich galw'n Gristion?

Rydw i wedi canfod llawer o atebion posib, ond rywsut does dim un yn bodloni.

1. Y mwyaf syml: trwy fedydd y mae rhywun yn dod yn Gristion. Plentyn bach ym mreichiau'i fam yn dod i gael ei fedyddio a mynd allan yn Gristion? Anodd derbyn y diffiniad yna rywsut. Yn siŵr, mae a wnelo bod yn Gristion rhywbeth â ffydd ac ymarweddiad, sut mae dyn yn byw, rhywbeth na wŷr y plentyn fawr ddim amdano. Heblaw hynny, mae llawer sy'n ystyried eu hunain yn Gristnogion, ond heb erioed gael eu bedyddio.
2. Neu beth am: drwy gael eich derbyn yn gyflawn aelod, neu drwy gonffyrmasiwn, drwy arddodiad dwylo esgob yn yr Eglwys wladol? A yw un sydd wedi ei dderbyn fel yna i gyflawn aelodaeth o'r Eglwys Gristnogol yn Gristion? Mi ddylech chi a finnu mewn rhyw ffordd neu'i gilydd fedru nabod Cristion, ond does dim modd medru gwahaniaethu'n aml rhwng un wedi 'ei dderbyn' ac un heb ei 'dderbyn'.
3. Diffiniad arall: Cristion yw un sydd wedi cael trôedigaeth, neu sydd wedi ei eni drachefn (a defnyddio ymadrodd Efengyl Ioan). Mae hwn yn ddiffiniad gwell, ond yn rhy gyfyng. Be ydyn ni'n ei feddwl wrth 'drôedigaeth'? Ai'r hyn a ddigwyddodd i Paul ar y ffordd i Ddamascus neu rywbeth tebyg i'r hyn a ddigwyddodd i gannoedd o

bechaduriaid gynt yn amser y diwygiad (ac i mi yn Aberystwyth ym 1992)? Rhywbeth mawr, ysgytwol, chwyldroadol yn digwydd iddynt, sy'n eu gwneud yn Gristnogion? Ond tydi pob Cristion ddim yn cael rhyw brofiadau mawr ysgytwol fel yna. Mae rhai yn troi'n Gristnogion gyda sydynrwydd afal yn syrthio oddi ar goeden; eraill wedyn yn ymagor yn raddol ac yn ddigyffro fel mae'r blodyn yn agor i'r haul.


4. Efallai y dylem ddweud mai dyn yn credu yn Nuw trwy Iesu Grist yw'r Cristion. Mae hwn yn well diffiniad fyth. Ond mae gan rai pobl syniad od iawn am Dduw ac am yr Arglwydd Iesu Grist. Rydw i wedi bod yn darllen am hanes Albert Schweitzer yn ddiweddar. Roedd athroniaeth bywyd a gwaith bywyd Schweitzer yn croes-ddweud ei gilydd. Nid yw Schweitzer yn derbyn ein hathrawiaeth ni am Dduw ac am Iesu Grist. Nid yw'n credu mewn Duw personol. Nid yw'n credu mewn gweddi yn ein hystyr ni i'r peth. Dyn oedd Iesu Grist iddo, ac ni ddylem dderbyn yn hollol ei athrawiaeth na'i ddehongliad o ystyr bywyd. 'Interim ethic' oedd dysgeidiaeth Cristnogaeth, yn ôl Schweitzer. Credai Iesu Grist, fel gweddill pobl ei oes, fod diwedd y byd yn ymyl, a rhywbeth ar gyfer yr amser byr oedd ei ddysgeidiaeth ef. Nid yw Schweitzer yn Gristion yn ystyr *orthodox* y gair, ac eto, does fawr neb wedi medru cyfieithu Ysbryd yr Arglwydd Iesu i actau a gweithredoedd bywyd bob dydd yn fwy nag ef.
5. A oedd Pedr, Iago, Ioan ayyb yn Gristnogion yn nyddiau cynnar gweinidogaeth yr Iesu ar y ddaear? Ynteu dod yn Gristnogion wnaethon nhw ar ôl iddynt gredu ystyr marw'r Groes a'r Atgyfodiad? Mae llawer i'w ddweud dros ddiffinio Cristion fel un sydd yn dilyn Iesu Grist.
6. Mae'r Testament Newydd yn ymddangos fel pe bai'n awgrymu mai'r hyn sy'n gwneud dyn yn Gristion yw preswylid yr Ysbryd Glân oddi mewn iddo. Ond sut mae diffinio'r preswylid yna? Mae llawer fyddai'n barod i ddweud nad ydynt yn gredinwyr ond eto'n dangos, yn eu bywydau bob dydd, ysbryd yr Arglwydd Iesu.
7. Mae eraill yn dweud nad oes y fath beth â Christian unig, ar ei ben ei hun. Rhaid iddo fod yn aelod o gymdeithas – yr Eglwys. Ac eto, prin

(parhad ar y dudalen nesaf)


## Neges Heddwch ac Ewyllys Da Cymru

Mai'r 18fed yw Diwrnod Neges Heddwch ac Ewyllys Da Cymru. Bob blwyddyn ers 1922, mae pobl ifanc Cymru yn anfon neges o heddwch i bobl ifanc dros y byd. Dyma'r unig neges o'i math yn y byd! Mae hi wedi ei chyfieithu i 52 o ieithoedd er mwyn i bobl gael ystyried ei chynnwys yn eu hiaith eu hunain. Dilynwch y ddolen isod er mwyn cael mynediad ati yn y Gymraeg a'r ieithoedd i gyd a rhannwch hi wedyn eich hun os gallwch.

[www.urdd.cymru/cy/neges-heddwch-eleni](http://www.urdd.cymru/cy/neges-heddwch-eleni)



**Neges Heddwch ac Ewyllys Da gan bobl ifanc Cymru 2020**



**Stopio'r Cloc ac Ailddechrau**

**Annwyl bobl y byd**  
Mae natur wedi ein hysgwyt – mae'n galw arnom i ddeffro  
Ry'n ni'n gwario'n ddiangen  
Ry'n ni'n gwastraffu'n ddiangen  
Ry'n ni'n teithio'n ddiangen

**Annwyl ieuenticid y byd**  
Nawr yw'r amser i ddiolch  
Diolch i'r rheiny ar y rheng flaen sydd wedi ein helpu i gario mlaen  
A gyda'n gilydd gallwn greu dyfodol gwell  
Dyfodol o edrych ar ôl ein hunain ac eraill  
Dyfodol o gofio am y llai ffodus yn ein cymunedau  
Dyfodol o ofalu am y blaned  
Gweithredwch

**Annwyl arweinwyr y byd**  
Mae Coronafeirws wedi stopio'r cloc  
Gwrandewch ar bobl ifanc Cymru a'r byd yn sefyll gyda'n gilydd  
Gweithredwch drwy gymryd cyfrifoldeb dros ein dyfodol ni  
Mae'r byd wedi deffro.  
Nawr deffrwch chi.

[@Urdd](https://twitter.com/Urdd) [f](https://www.facebook.com/Urddgobaithymru) [i](https://www.instagram.com/Urddgobaithymru) [U](https://www.youtube.com/channel/UCqj8Q8388R7K9n68g1p4d1g) [www.urdd.cymru/heddwwch](https://www.urdd.cymru/heddwwch)

## 'BETH YW CRISTION?' (parhad)

y byddai'n iawn i ddweud fod pob un sy'n aelod o eglwys yn Gristion; a gwyddom am sawl un sy'n Gristion gloyw ond heb fod yn perthyn i unrhyw eglwys arbennig.

8. A oedd Iesu Grist ei hun yn Gristion? Iddew ynteu Cristion oedd o?

Gwelwch felly mor anodd yw ateb y cwestiwn a dweud yn union beth yw Cristion. Efallai mai'r ateb mwyaf syml a boddhaol yn y pen draw yw dweud mai Cristion yw rhywun sy'n trio bod yn debyg o ran ei fywyd a'i gymeriad i'r Arglwydd Iesu Grist, hwnnw neu honno y mae'r emyn bach 'O na bawn yn fwy tebyg i Iesu Grist yn byw' yn weddi ac yn awyddfyd pennaf ei fywyd neu ei bywyd yn y byd.

Dyna fy ateb i, beth bynnag. Ond bob tro mae rhywun yn gofyn y cwestiwn, 'Ydw i'n Gristion?' i mi. 'Na,' fydd fy ateb bob tro, 'ma' gen i ofn fy mod i'n berffaith amherffaith. Ysyaeth, ochr yn ochr â'r Mwyaf Un, allwn i fod yn ddim byd arall.'

Beth amdanoch chi? Beth mae bod yn Gristion yn ei olygu i chi?

Wynford Ellis Owen

## Gobaith yn yr anial garw

Mae gan T. H. Parry-Williams gerdd ddwy adran – 'I'm Hynafiaid', ac mae'r adran gyntaf yn rhestru, yn edliw yn wir, yr holl bethau nas cafodd gan ei rieni, ac mae digon ohonynt: yn fanna a medd, yn ddiddanwch, yn nwyd a dawn, yn sadrwydd barn.

A ninnau yn y cyfnod hwn o gyfyngu dyrys ar ein bywydau gyda bygythiad yr haint uwch ein pennau, hawdd i ninnau ddannod – i Dduw falle, yr holl bethau na chawn mohonynt, neu yr amddifadwyd ni ohonynt beth bynnag. Yn wir, onid yw pob un ohonom bron yn cael cyfnodau o ddigalondid, ac o fethu gweld unrhyw beth ond tywyllwch ac anobaith wrth edrych tua'r dyfodol. Yn y bore y teimlaf i felly gan amlaf, ac ynghanol y nos, wrth gwrs, pan fydd cwsg ymhell, a hawdd gofyn yng ngeiriau emyn John Jones, Tal-y-sarn, a oes 'gobaith yn yr anial garw?'

Ychydig yn ôl anfonodd ffrind imi gyfeiriad ffeil arbennig ar y We, ac o agor y ffeil cefais ynddi restr o ffeithiau wnaeth imi deimlo'n euog o gael unrhyw feddyliau digalon, ac o weld bai ar bawb a phopeth, a hynny heb ystyried gymaint gwell ydi hi arnaf i o'i gymharu â miliynau yn ein byd. Dyma rannu efo chi rai o'r ffeithiau gododd gywilydd arna i:

- Rwy'n mwynhau iechyd da ar y cyfan, ac felly'n fwy llwus na miliwn o bobl y byd na fyddant fyw drwy'r wythnos.
- Nid wyf erioed wedi gorfod diodde erchyllterau rhyfel; chefais i erioed fy mhoenydio; ni wn unigrwydd carchar; ni wn bangfeydd newyn. Mae hi'n wahanol iawn arna i, felly, i'r hyn ydi hi ar bum can miliwn o bobl y byd.
- Gallaf addoli heb ofni ymosodiad corfforol gan neb, gwahanol iawn i dri biliwn (ie, tri biliwn – coeliwch neu beidio) o ddinasyddion y byd.
- Dwi ddim yn gyfoethog ond mae gen i bres yn y banc, ac arian yn fy mhoced. Rwyf yn yr un categori ag wyth o bob cant o bobl yn y byd. Ystyriwch y 92% arall!
- Rydw i, ac yr ydech chi, yn gallu darllen, gan gynnwys yr hyn dwi wedi ei sgrifennu. Gwahanol iawn i ddwy biliwn o bobl y byd sy'n anllythrennog.

Gallwn ddod yn nes adre gyda chymariaethau hefyd. Rwy'n briod ac mae dau ohonom. Nid felly y mae hi ar lawer. Mae gen i dŷ a gardd yn y wlad, nid fflat ar bedwerydd llawr ar ddeg adeilad mewn tref; mae gen i deulu, a thair cenhedlaeth yn byw o fewn pum milltir imi; mae gen i gymdogion a chyfeillion, ond dydi hi ddim felly ar bawb.

Mae ail adran cerdd T. H. Parry-Williams i'w rieni yn dweud nad ydyw yn dyheu am odid ddim oherwydd iddo gael, ymhlith pethau eraill, greigiau dan ei draed, gras, nerth, a doethineb. Nid gresynu am yr hyn nas cafodd y mae o, ond diolch am yr hyn a gafodd:

A dyna pam gan gymaint a roed im,  
Nad ydwyf yn dyheu am odid ddim.

Beth amdanon ni yn yr argyfwng hwn? Onid diolch ddysten ni fod gynnon ni gymaint? Lle i ddiolch nid i hunandosturio; lle i obeithio, nid i anobeithio. Ac emyn am obaith yw un John Jones, Tal-y-sarn (rhif 778 yn *Caneuon Ffydd*). Os yw pethau yn edrych yn dywyll, os ydym yn digalonni, yn gweld y dyfodol yn ansicr, yn llawn bygythiadau, cadwn y ffydd a chredwn y bydd, yng ngeiriau'r emyn:

Gobaith bore heb gymylau  
Ar ôl noswaith dywyll iawn.

Elfyf Pritchard, Sarnau

# Cyngor Eglwysi Rhyddion Cymru

Digwyddiadur y Llywydd (Rhif 9: Ionawr–Ebrill 2020)

*Ym mis Ionawr gan fy mod yn credu mai hwn fyddai fy Nigwyddiadur olaf cyn trosglwyddo'r awenau i'r Parch Simon Walkling, mae'n rhedeg tan diwedd Ebrill yn hytrach na diwedd Mawrth. Erbyn hyn, oherwydd Covid-19, bu rhaid newid y trefniadau, a hysbyswyd yr aelodau ddiwedd Ebrill ein bod wedi penderfynu, gan ddilyn patrwm amryw o'n henwadau, dileu cyfarfodydd Mai a Tachwedd gan amcanu cynnull cyfarfod yng Ngwanwyn 2021, pryd y sefydlir y Parch Simon Walkling yn y Llywyddiaeth.*

*Fel yn y ddwy flynedd flaenorol, mae llai o gyfarfodydd/digwyddiadau yn ystod y cyfnod hwn, heb sôn am unrhyw ymyrraeth gan Covid 19, ond dyma'r gweithgareddau, digwyddiadau ac ymgynghoriadau y mynychais y gwanwyn hwn.*

**Ionawr 27** – Cynrychiolwyd Cyngor yr Eglwys Rhyddion yn y Coffâd Cenedlaethol ar Ddiwrnod Cofio'r Holocaust a gynhaliwyd yn Neuadd y Ddinas gan Helen, ein hysgrifenyddes. Diolch iddi am hyn ac am bopeth arall y mae'n ei gyflawni'n gyson ar ran y Cyngor.

**Chwefror 27** – Mynychu lansiad 'Adlewyrchu Cymru wrth Redeg Cymru', sef Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru. Fe'i cynhaliwyd yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru gyda'r Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip Jane Hutt, AC, yn agor y digwyddiad.

**Chwefror 29** – Mynychu gwasanaeth arbennig yng nghapel Penuel, Caerfyrddin, i ddathlu pen-blwydd beibl.net yn ddeunaw oed ac i ddiolch i Arfon Jones a Gwenda Jenkins am eu cyfraniad arbennig i waith Gobaith i Gymru dros gyfnod helaeth o flynyddoedd. Trosglwyddwyd y cyfrif-oldeb yn awr i Gyngor yr Ysgolion Sul ac fe lansiwyd y gwefannau newydd a fydd yn parhau gyda'r gwaith i'r dyfodol.

**Mawrth 1** – Trwy wahoddiad Cyngor Dinas Caerdydd, mynychu gwasanaeth dinesig dydd gŵyl Dewi yr Arglwydd Faer yn Eglwys Plwyf Dinesig Sant Ioan Fedyddiwr. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Barchedig Ganon Sarah Jones, a thraddodwyd pregeth arbennig o briodol i'r amgylchiad gan yr Archesgob John Davies, gyda minnau'n ymuno ag ef a'r Archesgob Stack i gyflwyno'r Fendith ar y diwedd.

**Mawrth 4** – Mynychu derbyniad gyda'r nos yn y Senedd, fel rhan o Frecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi, oedd yn canolbwyntio ar 400 mlwyddiant Beibl 1620 a hefyd ganmlwyddiant datgysylltu'r Eglwys yng Nghymru. Cafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan Eluned Morgan, AC; Dafydd Tudur (y Llyfrgell Genedlaethol); y grŵp Sound of Wales; Yr Athro Norman Doe a Dai Lloyd, AC. Trefnydd a llywydd y noson oedd Darren Millar, AC.

**Mawrth 5** – Mynychu Brecwast Gweddi Seneddol Gŵyl Ddewi yn adeilad y Pierhead, a chyda tua chant o wahoddedigion yno erbyn 7.45 y bore cafwyd gwledd o fwyd ac anechiadau. Yr un oedd y thema â'r noson cynt gydag arddangosfa o'r Beiblau gan Dafydd Tudur. Y cyfranwyr oedd y Parchedigaf John Davies; Rebecca Evans, AC; Simon Hart, AS; Huw ac Elizabeth Priday, a'r grŵp Sound of Wales. Roedd y cyfan dan arweiniad Darren Millar, AC.

**Mawrth 5** – Mynychu'r gwasanaeth i ddathlu pedwar canmlwyddiant Beibl 1620 yng Nghapel Tabernacl, yr Ais, Caerdydd. Cynrychiolwyd pob un o'r prif enwadau Cristnogol yn y gwasanaeth ynghyd â chynrychiolwyr o fudiadau Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl a Chyngor yr Ysgolion Sul. Roeddwn i'n un o'r rhai oedd yn cyflwyno gweddi a llywyddwyd y cyfan gan y Parch Denzil John. Cafwyd pregeth rymus oedd yn rhoi sialens fyw i bob un oedd yn bresennol yn y gynulleidfa gan Arfon Jones.



Rhan o'r gynulleidfa



Cyflwyno Gweddiâu  
Denzil John; Rheinallt Thomas; Mari McNeill; Meleri Cray; Aled Davies  
(hefyd Carys Whelan a Marcus Robinson ond ddim yn y llun)

**Mawrth 9** – Mynychu'r cyfarfod yn y Senedd i gloi gweithgareddau 'Cymru'n Cofio, Wales Remembers 1914–18'. Diolchodd Prif Weinidog Cymru i bawb

fu'n rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, ac yn benodol i'r Cyngorwyr Arbennig, yr Athro Syr Deian Hopkin a Linda Thomas.



Linda Thomas a  
Deian Hopkin

Y Prif Weinidog  
Mark Drakeford

Canslwyd cyfarfod o Gyngor Rhyng Ffydd Cymru ar Fawrth 16 a hefyd lansiad Pecyn Cymorth Twristiaeth newydd ar gyfer Addoldai Anghydfurfiol ar Fawrth 19.

**Ebrill 1** – Cymerais ran mewn dau gyfarfod Zoom a drefnwyd gan CTBI (Eglwys ynghyd ym Mhrydain). Yng nghyfarfod y bore, a fynychwyd gan 27 o Uwch-arweinwyr Eglwysig, bu i ni i gyd gyfrannu am ein sefyllfaoedd amrywiol yn y pedair gwlad. Cytunwyd hefyd mewn egwyddor ar lythyr y byddem oll yn arwyddo i'w ddsbarthu ar gyfer y Pasg. Yn y prynhawn, cafodd 24 o Uwch-swyddogion drafodaeth bellach ac fe gwblhawyd y llythyr. Yr hyn oedd fwyaf diddorol oedd pa mor gytûn yr oeddem ynglŷn â'n safiadau mewn perthynas â Covid-19. Cytunwyd ar gyfarfodydd dilynol ar gyfer Mai 7fed. Yr wyf yn siŵr eich bod i gyd wedi gweld y llythyr wedi'i lofnodi ar wefannau neu mewn cyhoeddiadau. Fe'i dosbarthwyd yn Gymraeg ac yn Saesneg yng Nghymru.

**Ebrill 29** – Mynychu Fforwm Cymunedau Ffydd Llywodraeth Cymru trwy gyfrwng Skype. Roedd 24 yn bresennol – 16 yn cynrychioli'r grwpiau ffydd a 7 o swyddogion o Lywodraeth Cymru, gyda Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog, yn cadeirio y tro hwn. Roedd pum eitem ar yr agenda – pedair ohonynt yn deillio o Covid-19. Yr oedd yn ddiddorol ac yn braf canfod ein bod i gyd yn gytûn ynghylch yr hyn a ddylai ddigwydd o ran addoldai a gweithgareddau cysylltiedig, tra bo'r sefyllfa ddigynsail bresennol yn parhau. Y pumed mater oedd yr hysbysiad ynghylch ymgynghoriad ar addysg a lansiwyd ar Fai'r 5ed a fydd yn cynnwys cynigion i newid deddfwriaeth mewn perthynas ag Addysg Grefyddol a CYSAGau ac ati.

**Rheinallt A Thomas,**  
Llywydd

e bost: [rheinallt@talktalk.net](mailto:rheinallt@talktalk.net)

# O Gefn Gwlad

## Cydbwysedd

Yr ydym yn greadigaethau rhyfeddol mewn byd rhyfeddol, ac yn y pendraw mae'r cyfan yn dibynnu ar gydbwysedd. Dyna i mi,риф neges y cyfnod diweddar yma lle mae'r haint yn ein bygwth, haint a ddisgrifiwyd mor wych gan I. D. Hooson ddegawdau yn ôl bellach, a hynny mewn cerdd sy'n alegori o fyd yr anifail. Cerdd ydyw y talai i ni ei darllen eto.

Drwy'r goedwig werdd a thros y mynydd llwm, Trwy'r dyffryn bras, i fyny'r pellaf gwm, Y cerddai'r Haint ac angau yn ei gôl...

Ie, dyna'r haint a ddaeth â melltiith ar ein byd.

## Crybwyllais gydbwysedd.

Ystyriwch am funud y nwyon yr ydym yn eu hanadlu. Ychydig bach o newid yn y cydbwysedd a byddai'n farwol inni. Ystyriwch ogwydd y ddaear, ychydig raddau o newid yn y gogwydd hwnnw a dyna'r byd ar ben. Yn ein bodolaeth ddynol, ym myd natur, yn yr holl gread y mae yna gydbwysedd, cydbwysedd y mae'n rhaid i ni ei dderbyn a'i barchu a'i warchod.

## Ei barchu?

Ie, ond dydyn ni ddim wedi gwneud hynny ydyn ni? Onid yw ein ffordd o fyw wedi tynnu'n afradlon ddireol o adnoddau ein daear, wedi difenwi a llygru yr amgylchfyd, wedi creu y tymhestloedd mawrion, a chreu yr un pryd amgylchedd ffafriol i heintiau o bob math i ffynnu a lluosogi!

Ac wele'r ddaear hon, y buom mor ddibris ohoni yn taro'n ôl, yn mynnu iddi ei hun egwyl rhag nwyon gwenwynig, rhag ecploetio difeddwl gan obeithio deffro – yng ngeiriau W J Gruffydd "i wanwyn arall a gwell dydd."

## Gwell dydd?

Ie os gallwn barchu a chynnal a choleddu'r cydbwysedd; cydbwysedd mewn rhannu adnoddau, cydbwysedd mewn chwarae teg ym myd dynoliaeth, cydbwysedd rhwng y materol a'r ysbrydol yn ein hagwedd gyffredinol at fywyd.

Ystyriwch yn unig gydbwysedd yn y materol. Collasom olwg yn llwyr ar hwnnw. Dyma rai ffigyrau i chi o fyd yr arian:

- Cyflog cyfartalog nyrs: Pum mil ar hugain o bunnoedd y flwyddyn. Cyfartalog cofiwch. Mae lliaws yn cael llawer llai!
- Cyflog cyfartalog chwaraewr pêl-droed prif gynghrair Lloegr – Tair miliwn y flwyddyn, gyda Christiano Ronaldo gyda llaw yn ennill un deg saith miliwn wedi treth.
- Cyflog Prif Weinidog Ynysoedd Prydain, swydd fwy cyfrifol y deyrnas: cant a hanner o filoedd y flwyddyn.
- Cyflog cyfartalog y rhai sy'n cyflwyno'r newyddion ar y BBC: rhwng pedwar can mil a hanner miliwn o bunnoedd y flwyddyn.

A beth am ein postmyn a'n casglwyr sbwriel a bron bawb sy yn y gwasanaethau:— isafswm cyflog sy'n £8.72 yr awr. (rhyw dri chant a hanner

yr wythnos, pymtheng mil y flwyddyn.)


Aeth diffyg cydbwysedd mewn cyflogaeth yn rhemp gyda'r pwyslais ar "egwyddorion" economaidd nid ar anghenion pobl, ac y mae'r cyfan yn dylanwadu'n sylfaenol ar fywydau, ar agweddau, ar ymddygiad, gyda chyflogau anferthol yn amlach na pheidio yn bwydo hunanoldeb yn hytrach na bodloni'r rhai sy'n eu derbyn. A'r hunanoldeb hwnnw'n effeithio'n ddybryd ar ein byd.

Newidiwn ni ar ôl i'r haint ein gadael?

Dyna'r siarad sydd. " O mi fydd amgylchiadau'n wahanol, mi fydd bywyd yn wahanol." Ond a fydd agweddau yn newid? A weithredwn ni'n gyfrifol tuag at y byd a roddwyd i ni?

A beth am y cydbwysedd rhwng y materol a'r ysbrydol, yr allwedd i'r cyfan falle? I'r mwyafrif yng Nghymru nid yw'r ysbrydol yn bod o gwbl, i leiafrif bychan yr ysbrydol yw'r cyfan. Mae'r ddau begwn yn ei methu hi gan fod angen y cydbwysedd rhwng y ddau. Mae angen inni fod – fel y dywedodd R Williams Parry yn "fydol ac ysbrydol yr un pryd." A fydd yna ddychwelyd yn dyrfaoedd i addoli, ac a fydd yna gwtogi milain ar gyflogau mawrion a gwastatau pethau rhwng pobloedd?

Wel, y mae yna ddisgwyl mawr y byddwn ni wedi



dysgu o hyn sut i fyw yn y byd. Tybed? Dyw esiamplau o fyd hanes ddim yn argyhoeddi ydyn nhw. Roedd y rhyfel bydd cynta yn rhyfel i ddileu pob rhyfel. A be ddigwyddodd? Ugain mlynedd yn ddiweddarach roedd y cenhedloedd unwaith eto yng ngyddfau ei gilydd. Yn dilyn yr ail ryfel byd ffurfiwyd masnach rhwng gwledydd Ewrob – a Marchnad Gyffredin yn y diwedd, a'r prif reswm oedd i atal rhyfel. A be ddigwyddodd bedair blynedd yn ôl? Pleidleisiodd Lloegr – a Chymru hefyd i'w gadael!

Na, dyw esiamplau hanes ddim yn addo'n dda ydyn nhw? "Marwolaeth nid yw'n marw hyn sydd wae," meddai Williams Parry. Dynoliaeth nid yw'n dysgu – hyn sy fwy gwae dybia i. Calliwn wir!

*Elfyn Pritchard*

## Atebion Pos

I'r rhai ohonoch fu'n chwysu chwartiau ac yn dyheu am wybod yr atebion i'r dirgelion i gyd wele'r atebion i gyd gan Geraint Jones, Treffynnon.

Mae Pos arall i ddilyn ym mis Mehefin.

I LAWR: 1. Argob; 2. Dan; 3. Siclag; 6. Ilyrcium; 7. Gomorra; 8. Media; 11. Tarsis; 13. Seir; 14. Ebal; 15. Philadelphia; 20. Nasareth; 24. Susa; 25. Toffet; 27. Pisga.

AR DRAWS: 4. Mispa; 5. Phenix; 9. Jabboc; 10. Sychar; 12. Seion; 16. Rhegium; 17. Gathheffer; 18. Jebus; 19. Mitylene; 21. Macedonia; 22. Taphane; 23. Genesaret; 26. Thisbe; 29. Ninefe; 30. Jwdea.

Gwasanaethau Sul dros y ffôn  
**02920 101 564**  
 Sunday Services over the phone

I bo un nad yw'n hyddysg â'r we, neu sydd heb gyfrifiaduwr, cofiwch bod Eglwys Bresbyteraidd Cymru wedi darparu'r adnodd uchod ar gyfer y rhai sy'n colli'r gwmniaeth a'r addoliad ond sydd wedi eu hynysu. Mae "myfyrdod" newydd yn cael ei ychwanegu'n wythnosol.

Beth am roi cynnig arni? A chofiwch adael i ni wybod am eich profiadau diweddar o "gyfarfod" heb furiau. Ac mae gennym ddi-ddordeb arbennig am droeon trwstan yr arbfoi a fu!

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn...

Yn ystod y cyfnod hwn gwerthfawr yw oedi a threulio amser yn myfyrio ar air Duw yng nghwmni'n gilydd. Yr ydym yn dilyn awgrymiadau gan y Llithiadur Diwygiedig Cyffredin ar gyfer y Sul.

## Tragwyddol orffwysfa'r saint

**EMYN – Caneuon Ffydd 562  
Crist a orchfygodd**

### GWEDDI

*Wedi ei symbylu gan Luc 1:78-79*

*"Hyn yw trugaredd calon ein Duw – fe ddaw a'r wawrddydd oddi uchod i'n plith, i lewyrchu ar y rhai sy'n eistedd yn nhywyllwch cysgod angau, a chyfeirio ein traed i ffordd tangnefedd..."*

*Hollalluog a thrugarog Dduw, down ynghyd i'th addoli gan ddyheu am gael profi tiriondeb dy galon;*

*Mae'r byd hwn yn medru bod mor galed. Down atat yn dyheu am oleuni – gall y byd hwn ein dallu gan ei gysgodion; down atat gan geisio cyfeiriad mewn byd sydd â llwybrau dyrus yn croesi ei gilydd heb arwyddbyst clir. Down atat gan geisio dy dangnefedd sydd uwchlaw pob deall; bydd eto yn oleuni, yn llwybr, yn wirionedd ar ein taith.*

**DARLLEN – 1 Pedr 4:12 – 5:11**

### MYFYRDOD:

Fel y dywedodd Dr Alistair Mc Grath, "Mae yna adegau pan mae hi'r un mor bwysig i ddangos bod Cristnogaeth yn real yn ogystal â bod yn wir."

Yn ei lythyr mae Pedr eisoes wedi atgoffa'r eglwys fach sydd ar wasgar o realiti eu profiad. Pobl sy'n llawenhau yn eu hadnabyddiaeth o Iesu Grist ydynt meddai. Cawsant eu llenwi gan obaith bywiol trwy ffydd yn atgyfodiad Iesu Grist. Cawsant etifeddiaeth ddiogel. A thrwy ras cawsant eu llenwi gan gariad tuag at Iesu Grist ynghyd â gorfoledd a llawenydd anhraethadwy a gogoneddus. Ond eglwys bychain oedd yn wynebu gwrthwynebiad ac erledigaeth oedd ei ddarlennwyr.

Sut felly allent barhau yn eu ffydd pan oedd y gwrthwynebiad mor ffyrnig, y dioddefaint mor danllyd â'r gwrthwynebwyr mor niferus a phwerus?

Gwyddent eu bod, fel yntau, yn wynebu "blinder dros dro" dan "amrywiol brofedigaethau." Roedd yn ymddangos fel yr hyn a ddigwyddai i aur oedd yn cael ei goethi mewn tân. Realiti "y prawf tanllyd sydd ar waith yn eich plith..." (4:12) yw'r cyd-destun yma eto. Ac mae'r gwrthwynebiad a'r gwrthwynebwyr a'r pwerau dieflig fel pe baent "yn

prowlan o gwmpas fel llew yn rhuo, gan chwilio am rywun i'w lyncu..." yn gyd-destun bygythiol i'w tystiolaeth.(5:5)

Sut felly mae'r eglwys mewn dyddiau o gynni i ymddwyn ac ymagweddu ar sail profiadau ddoe, i realiti heddiw a gobaith tragwyddol?

Nid yw Pedr yn gwneud yn fach o'u profiad o ras na'u treialon. Ond wrth gynnig golwg ar dirwedd newydd eu cred, ffydd sydd ag atgyfodiad Iesu Grist yn ganolog iddo, cynigir gweledigaeth iddynt sy'n eu galluogi i fyw realiti eu ffydd – eu profiad, eu hymarweddiad a'i gobaith tragwyddol. Nid cân i'w suo i drwmgwsg difaterwch a thawelyddiaeth nac unigolyddiaeth yw canlyniad y ddealltwriaeth yma. Galwad a her ydyw i'r eglwys – "ymddisgyblwch a byddwch effro... gwrthsafwch..." (5:6)

Efallai mai geiriau Iesu yn y Gwynfydau yw'r esboniad neu'r allwedd sy'n agor yr adran i ni. Fe gofiwn i Iesu ei hun ddweud, "Gwyn eich byd pan fydd pobl yn eich gwaradwyddo a'ch erlid, ac yn dweud pob math o ddrygair celwyddog yn eich erbyn, o'm hachos i.

*Llawenhewch a gorfoleddwch, oherwydd y mae eich gwobr yn fawr yn y nefoedd; felly yn wir yr erlidiwyd y proffwydi oedd o'ch blaen chwi."* (Mathew 5:11-12)

Felly meddai Pedr:

- **Peidiwch** â synnu na "rhyfeddu at y prawf tanllyd" a ddaeth i'ch rhan. (4.12) Os "gwaradwyddir chwi..." hyd yn oed, "gwyn eich byd". (4:14)
- **Llawenhewch** er mwyn i chwi fedru llawenhau. (4.13) Rhannol yw ein profiad o ddaioni Duw ond mae dyfalbarhau yn ein gobaith yn baratoad at gyflawnder terfynol y gobaith a'r llawenydd!
- **Cofiwch** eich profiad o Grist (4.15) – "mae Ysbryd y gogoniant" sydd **eto i ddod** yn ei gyflawnder, sef "ysbryd Duw yn gorffwys arnoch" – yn awr, ar hyn o bryd, heddiw. Nid yw'r Golomen Ddwyfol yn ymddieithrio cyn cyflawni ei waith ynom.
- **Peidiwch** â chywilyddio a pheidiwch â dwyn cywilydd i'ch proffes (4:16). Mae canlyniadau cwbl ymarferol i'n ffydd. Ni ddylai'r rhai sy'n "gogoneddu" "Duw ymwneud â'r anllad.
- **Ymddiriedwch** eich bywydau i Dduw (4.19). Yr ydym yn byw yng ngoleuni ffydd yn y crewr ffyddlon, sy'n farnwr cyfiawn, sy'n cartrefu ynom drwy ei Ysbryd Glân.

- Henuriaid – gweinidogion a blaenor-iaid – **bugeilwch** yn onest gan fod yn batrwm i'r eglwys. – mae torch gogoniant yn eich aros. Braint yr ifanc yw cael dysgu gan yr henuriaid. A chaiff pob un ei annog i wisgo gostyngeddwydd. Mae'n amlwg yn agwedd meddwl y gellir ei roi o'r neilltu neu ei wisgo. (5:1-5)

- **Ymddarostyngwch** dan law gadarn Duw – nid yw'r Arglwydd yng nghanol treialon mwyaf llym eich bywydau wedi eich gollwng. Mae'n abl i ddal ein gofidiau i gyd. Ond daw, fe ddaw awr y dyrchafu hefyd. (5:6-7)

- **Ymddisgyblwch**, byddwch effro, a gwrthsafwch ddyrygion. Nid chi yn unig sy'n wynebu treialon. Nid chi yn unig sydd yn y pair. Peidiwch â rhoi eich gobaith o'r neilltu dan fygythiadau, gan ofnau, gan amgylchiadau.

- Oherwydd mae **addewid**. Ac am addewid gwerth chweil. Nid y dioddefaint na'r poenau, yr ofnau, erledigaeth na'r cynni a brofant yw'r realiti terfynol. Mae Ysbryd Duw wedi gorffwysu arnoch. Mae llawenydd anhraethadwy a gogoneddus yn parhau i fod yn realiti mwy na'r erledigaeth. Mae atgyfodiad Iesu wedi creu gobaith na ellir ei ddifa ynom.

- **Edrychwch**, meddai (5.10). Fe fydd hyn oll yn mynd heibio. Fe fydd edrych yn ôl "O fryniau Caersalem.. "Fe fydd realiti y "gras" – y rhodd na all neb ei haeddu – sydd ar waith ynom yn cwblhau ei waith. Mae llais yr hwn a'n "galwodd" yn drech na'ch siomedigaethau. Mae'r tragwyddol ogoniant yn drech na'r tywyllwch, ac mae gogoniant Iesu Grist yn ein gwneud heddiw yn gymwys, yn gadarn ac yn ddiysgog ar gyfer etifeddiaeth dragwyddol.

Felly, gwelwyd egin gras ynom pan ffrwydrodd diolchgarwch, awr yr Haleliwia yn fy enaid i. Penllanw gras yw, rhoddaf Iesu fy mawrhad i ti. "Iddo ef y perthyn y gallu am byth."

**EMYN – Caneuon Ffydd 791  
Tydi a wnaeth y wyrth**

### GWEDDI

Trown i ddefnyddio emyn 858 fel sail ein gweddi.

**GWEDDI'R ARGLWYDD**

**Y FENDITH**

Os na nodir yn wahanol nid yw barn y cyfranwyr o angenrheidrwydd yn farn y golygydd na'r Gymanfa Gyffredinol. Anfoner pob gohebiaeth, newyddion, ysgrifau, a.y.y.b. at y Parch. Ddr. R. Watcyn James, Eryl, Capel Bangor, Aberystwyth SY23 3LZ. e-bost: [goleuad@ebcpcw.cymru](mailto:goleuad@ebcpcw.cymru)  
Cyhoeddwyd gan Eglwys Bresbyteriaid Cymru ac argraffwyd gan Wasg y Bwthyn, Caernarfon.

• Wythnos nesaf – Dathlu'r Pentecost yn ystod yr haint! •